



---

## **Dogfen Reoleiddio**

### **Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer cymwysterau TGAU / TAG**

#### **Fersiwn 2**

---

Diweddarwyd Mehefin 2017

<b>Cynnwys</b>	
<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>3</b>
<b>Adran 1 - Amodau Safonol Ychwanegol A-P - Adolygiadau, Cymedroli ac Apeliadau</b> .....	<b>5</b>
Amod Safonol Ychwanegol A - Trefniadau marcio .....	5
Amod Safonol Ychwanegol B - Trefniadau cymedroli.....	6
Amod Safonol Ychwanegol C - Adolygu gwaith marcio ar gyfer asesiadau wedi'u marcio gan ganolfannau .....	7
Amod Safonol Ychwanegol D – Hysbysu am Ganlyniad Gwaith Cymedroli.....	9
Amod Safonol Ychwanegol E - Adolygu Gwaith Cymedroli .....	9
Amod Safonol Ychwanegol F – Sicrhau bod Deunyddiau Asesu wedi'u Marcio ar gael i Ddysgwyr.....	13
Amod Safonol Ychwanegol G - Adolygiad o Wallau Gweinyddol .....	14
Amod Safonol Ychwanegol H - Adolygu gwaith marcio ar gyfer Deunydd Asesu wedi'i Farcio .....	16
Amod Safonol Ychwanegol I - Y broses apeliadau ar gyfer cymwysterau TGAU/TAG .....	19
Amod Safonol Ychwanegol J – Penderfyniadau gan Ganolfannau ynghylch Trefniadau Adolygu.....	22
Amod Safonol Ychwanegol K – Perfformiad targed mewn perthynas â Threfniadau Adolygu a'r broses apeliadau .....	23
Amod Safonol Ychwanegol L – Cofnodi data sy'n ymwneud â Threfniadau Adolygu a'r broses apeliadau .....	24
Amod Safonol Ychwanegol M – Trefniadau Adolygu a thystysgrifau.....	26
Amod Safonol Ychwanegol N – Darganfod methiant mewn prosesau asesu.....	26
Amod Safonol Ychwanegol O – Cyhoeddi Trefniadau Adolygu a'r broses apeliadau .....	26
Amod Safonol Ychwanegol P – Dehongli a Diffiniadau .....	27
<b>Adran 2 - Amod Safonol Ychwanegol Q - Pennu ffiniau graddau TGAU, UG a Safon Uwch</b> .....	<b>29</b>
<b>ATODIAD 1</b> .....	<b>30</b>
<b>Adolygiadau o waith marcio, gwaith cymedroli ac apeliadau: gofynion ar gyfer dyddiadau allweddol</b> .....	<b>30</b>

## Cyflwyniad

Ar 19 Gorffennaf 2016, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer cymwysterau TGAU/TAG.

### **Adran 1 - Amodau Safonol Ychwanegol A-P - Adolygiadau, Cymedroli ac Apeliadau**

Mae'r adran hon yn nodi Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer adolygu'r broses o farcio / cymedroli cymwysterau TGAU a TAG ac apeliadau ynghylch y cymwysterau hynny.<sup>1</sup>

Daeth amodau newydd mewn perthynas ag adolygiadau, cymedroli ac apeliadau i rym o **00.01 o'r gloch ddydd Iau 18 Awst 2016 ar gyfer cymwysterau TAG ac 00.01 o'r gloch ddydd Iau 25 Awst 2016 ar gyfer cymwysterau TGAU**. O'r dyddiadau hyn, nid oedd y *Cod Ymarfer TGAU, TAG, Prif Ddysgu a Phrosiect* yn gymwys mwyach (o 18 Awst ar gyfer cymwysterau TAG a 25 Awst ar gyfer cymwysterau TGAU).

### **Newidiadau i Fersiwn 2, Mehefin 2017**

Ym mis Mai 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru Fersiwn 2 o'r Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer cymwysterau TGAU/TAG. Mae'r Fersiwn hon yn cynnwys y newidiadau canlynol:

- Ychwanegwyd Atodiad (Atodiad 1) i'r Amodau, yn dynodi'r amserlenni ar gyfer adolygu gwaith marcio, adolygu gwaith cymedroli ac apeliadau. Cyfeirir at yr Atodiad hwn yn amodau ASC.E3(b), ASC.F4(b) ac ASC.H3(b);
- Diwygiwyd ASC.F3 i adlewyrchu'r ffaith mai dim ond i gymwysterau TAG y caiff yr amod hwn ei gymhwyso ar hyn o bryd. Diwygiwyd ASC.F7, a oedd yn flaenorol yn ymdrin â chymhwyso'r amod hwn;
- Diwygiwyd amodau ASC.H5 ac ASC.H6 i adlewyrchu'r ffordd y caiff yr amodau hyn eu cymhwyso ar hyn o bryd. Dilëwyd amodau ASC.H7 ac ASC.H8, a oedd yn flaenorol yn ymdrin â chymhwyso'r amodau hyn;
- Diwygiwyd amodau ASC.I7 ac ASC.I9 i adlewyrchu'r ffordd y caiff yr amodau hyn eu cymhwyso ar hyn o bryd. Diwygiwyd amod ASC.I12, a oedd yn flaenorol yn ymdrin â chymhwyso'r amodau hyn;

Dilëwyd cyfeiriadau at 'Gymwysterau TAG Peilot' yn Amodau ASC.I7 ac ASC.I9, ac yn y rhestr termau.

Daw'r newidiadau hyn i rym o **12:00am ar 1 Gorffennaf 2017**.

---

<sup>1</sup> Defnyddir y term TAG (Tystysgrif Addysg Gyffredinol) drwy gydol y ddogfen hon i olygu cymwysterau UG a Safon Uwch.

## **Adran 2 - Amod Safonol Ychwanegol Q - Ffiniau Gradd**

Mae'r adran hon yn nodi Amod Cydnabod Safonol Ychwanegol ar y gweithdrefnau a ddefnyddir gan gyrff dyfarnu i bennu ffiniau gradd. Daw'r amod hwn i rym o 20 Gorffennaf 2016.

Datblygwyd gofynion technegol ar gyfer pennu lefelau cyrhaeddiad ar gyfer y cymwysterau canlynol:

TGAU etifeddol A\* i G

TAG etifeddol

TAG ddiwygiedig

Fe'u cyhoeddwyd fel dogfen reoleiddio ar wahân ac maent ar gael yn y ddolen ganlynol - <http://qualificationswales.org/regulation/monitoring-awarding-bodies/?lang=cy&>

## Amod Safonol Ychwanegol A - Trefniadau marcio

- ASC.A1 Mewn perthynas â phob cymhwyster  
TGAU/TAG a gynigir ganddo, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith yn unol ag Amod Safonol H1.1, o ran asesiad heblaw asesiad a gaiff ei farcio gan Ganolfan, yn darparu ar gyfer y canlynol -
- (a) y caiff yr holl waith marcio ei wneud gan Aseswyr sy'n meddu ar gymhwysedd priodol ac nad oes ganddynt unrhyw fuddiant personol yng nghanlyniad y gwaith marcio,
- (b) cyn ymgymryd ag unrhyw waith marcio, y caiff pob Aseswr hyfforddiant,
- (c) y bydd y corff dyfarnu yn monitro p'un a yw Aseswyr yn deall ac yn cymhwyso'r meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu perfformiad y Dysgwyr yn eu herbyn yn gywir,
- (d) lle bo'r corff dyfarnu yn dod i wybod, drwy ei waith monitro neu fel arall, bod Aseswr yn methu â chymhwyso'r meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu perfformiad y Dysgwyr yn eu herbyn yn gywir, y bydd yn cymryd pob cam rhesymol i wneud y canlynol -
- i. cywiro effaith y methiant, neu lle na ellir ei chywiro, ei lliniaru cymaint â phosibl, a
  - ii. sicrhau na fydd y methiant yn digwydd eto yn y dyfodol,
- (e) y bydd y corff dyfarnu yn monitro p'un a yw Aseswyr yn cymhwyso'r meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu perfformiad y Dysgwyr yn eu herbyn yn gyson, a
- (f) lle bo'r corff dyfarnu yn dod i wybod, drwy ei waith monitro neu fel arall, bod Aseswr yn methu â chymhwyso'r meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu perfformiad y Dysgwyr yn eu herbyn yn gyson, y bydd yn cymryd pob cam rhesymol i hyrwyddo cysondeb yn y dyfodol.
- ASC.A2 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo lle y caiff asesiad ei farcio gan Ganolfan, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith yn unol ag Amod Safonol H1.1, cyn i'r Ganolfan farcio'r asesiad, yn darparu bod y corff dyfarnu yn cynnig hyfforddiant i'r Ganolfan.
- ASC.A3 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo , rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y gwaith monitro a wneir yn unol ag Amod Safonol C1.1(b) yn cynnwys monitro p'un a yw Aseswyr yn marcio mewn ffordd sy'n cydymffurfio ag Amodau Cydnabod y corff dyfarnu.

## Amod Safonol Ychwanegol B - Trefniadau cymedroli

ASC.B1

Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG sy'n cynnwys trefniadau Cymedroli a gynigir ganddo, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith yn unol ag Amod Safonol H2.1 yn darparu ar gyfer y canlynol -

(a) y caiff yr holl waith Cymedroli ei wneud gan unigolion sy'n meddu ar gymhwysedd priodol ac nad oes ganddynt unrhyw fuddiant personol yng nghanlyniad y gwaith Cymedroli,

(b) na ddylai unigolyn a gymerodd ran yn y broses o farcio asesiad gan Ganolfan yn flaenorol fod yn rhan o'r broses Gymedroli mewn perthynas â'r gwaith marcio hwnnw,

(c) cyn ymgymryd ag unrhyw waith Cymedroli, y rhoddir hyfforddiant i bob unigolyn sy'n gyfrifol am ymgymryd â gwaith Cymedroli o'r fath,

(d) cyn ymgymryd ag unrhyw waith Cymedroli, y rhoddir copi o'r canlynol i'r unigolion sy'n gyfrifol am ymgymryd â gwaith Cymedroli o'r fath –

- i. unrhyw dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Dysgwyr y mae angen ei hystyried at ddiben Cymedroli neu, lle na ddelir dystiolaeth o'r fath neu na ellir gwneud copi ohoni yn hawdd, cynrychioliad o'r dystiolaeth ar ffurf arall,
- ii. y cofnod o'r marciau a ddyfarnwyd gan yr Aseswyr adeg marcio'r dystiolaeth honno,
- iii. unrhyw sylwadau a gofnododd yr Aseswyr wrth farcio'r dystiolaeth honno, a'r
- iv. meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu perfformiad y Dysgwyr yn eu herbyn,

(e) y bydd y corff dyfarnu yn monitro p'un a ymgwymerir â'r broses Gymedroli mewn ffordd sy'n cydymffurfio ag Amod Safonol H2,

(f) lle bo'r corff dyfarnu yn dod i wybod, drwy ei waith monitro neu fel arall, nad ymgwymerwyd â'r broses Gymedroli mewn ffordd sy'n cydymffurfio ag Amod Safonol H2, y bydd yn cymryd pob cam rhesymol i wneud y canlynol -

- i. cywiro effaith y methiant, neu lle na ellir ei chywiro, ei lliniaru cymaint â phosibl, a
- ii. sicrhau na fydd y methiant yn digwydd eto yn y dyfodol,

(g) y bydd y corff dyfarnu yn monitro p'un a yw'r unigolion sy'n ymgymryd â'r gwaith Cymedroli yn gwneud penderfyniadau sy'n gyson dros amser ac sy'n gyson â phenderfyniadau a wnaed gan y naill neu'r llall, a

(h) lle bo'r corff dyfarnu yn dod i wybod, drwy ei waith monitro neu fel arall,

nad yw penderfyniadau yn cael eu gwneud yn gyson dros amser neu rhwng yr unigolion sy'n ymgymryd â'r gwaith Cymedroli, y bydd yn cymryd pob cam rhesymol i hyrwyddo cysondeb yn y dyfodol.

ASC.B2 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG sy'n cynnwys trefniadau Cymedroli a gynigir ganddo, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y gwaith monitro a wneir yn unol ag Amod Safonol C1.1(b) yn cynnwys monitro p'un a yw unigolion sy'n ymgymryd â gwaith Cymedroli yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n cydymffurfio ag Amodau Cydnabod y corff dyfarnu.

### **Amod Safonol Ychwanegol C - Adolygu gwaith marcio ar gyfer asesiadau wedi'u marcio gan ganolfannau**

ASC.C1 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo, neu y mae'n bwriadu ei gynnal, lle y caiff asesiad ei farcio gan Ganolfan, rhaid i gorff dyfarnu wneud y canlynol -

(a) sicrhau bod y cytundeb y mae'n ofynnol ei roi ar waith rhyngddo â'r Ganolfan yn unol ag Amod Safonol C2.2 yn cynnwys y darpariaethau sy'n ofynnol gan yr amod hwn, a

(b) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Ganolfan yn cydymffurfio â'r darpariaethau hynny.

ASC.C2 At ddibenion yr amod hwn, rhaid i'r cytundeb gynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ganolfan wneud y canlynol -

(a) sefydlu, cynnal a chydymffurfio â threfniadau i unrhyw Ddysgwr wneud cais am adolygiad o'r ffordd y mae'r Ganolfan wedi marcio'r asesiad gan y Dysgwr ac i adolygiad o'r fath gael ei gynnal,

(b) cyflwyno canlyniadau pob asesiad a farciwyd gan y Ganolfan mewn perthynas â'r Dysgwr hwnnw i bob Dysgwr, er mwyn rhoi digon o amser i'r Dysgwr ystyried p'un a yw am wneud cais am adolygiad o waith marcio'r Ganolfan mewn perthynas â'r Asesiad hwnnw,

(c) hysbysu'r Dysgwyr y gallant wneud cais am gopiâu o ddeunyddiau i'w helpu i ystyried p'un a ddylid gwneud cais am adolygiad o waith marcio'r Ganolfan mewn perthynas â'r asesiad,

(d) yn dilyn cais o'r fath gan Ddysgwr, sicrhau bod copiâu o unrhyw ddeunyddiau ar gael ar unwaith i'r Dysgwr y gall fod eu hangen arno yn rhesymol er mwyn ystyried a ddylid gwneud cais am adolygiad o waith marcio'r Ganolfan mewn perthynas â'r asesiad.

(e) sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer adolygu gwaith marcio'r Ganolfan yn nodi y caiff pob adolygiad o'r fath ei gynnal gan Aseswyr sy'n meddu ar y cymhwysedd priodol ac nad oes ganddynt unrhyw fuddiant personol yng nghanlyniad yr adolygiad a gynhelir,

(f) sicrhau na fydd Aseswr a gymerodd ran yn y broses o farcio asesiad gan Ganolfan yn flaenorol mewn perthynas â Dysgwr yn rhan o adolygiad o'r gwaith marcio mewn perthynas â'r asesiad hwnnw,

(g) sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer adolygu gwaith marcio'r Ganolfan mewn perthynas ag asesiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aseswr sy'n cynnal yr adolygiad gywiro effaith unrhyw Wall Marcio wrth farcio'r asesiad,

(h) sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer adolygu gwaith marcio'r Ganolfan mewn perthynas ag asesiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Dysgwr gael ei hysbysu'n ddi-oed o ganlyniad yr adolygiad, y rhesymau am y canlyniad a bennwyd ac unrhyw newid o ran marciau,

(i) sicrhau bod trefniadau sydd ar waith i'r Dysgwr wneud cais am adolygiad o waith marcio'r Ganolfan mewn perthynas ag asesiad yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw adolygiad o'r fath gael ei gwblhau er mwyn bodloni gofynion y corff dyfarnu mewn perthynas ag erbyn pryd y mae'n rhaid darparu marciau ar gyfer yr asesiad a deunyddiau mewn perthynas â'r asesiad iddo er mwyn ei alluogi i ymgymryd â'r gwaith Cymedroli, a

(j) hysbysu'r Dysgwyr a'r corff dyfarnu sut y gallant gael gafael ar ddatganiad o'r trefniadau sydd ar waith i'r Dysgwr wneud cais am adolygiad o waith marcio'r Ganolfan a darparu datganiad o'r fath yn ddi-oed pan ofynnir amdano.

ASC.C3

Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo, neu y mae'n bwriadu ei gynnig, lle y caiff asesiad ei farcio gan Ganolfan, rhaid i gorff dyfarnu hysbysu Canolfannau (yn ddigon pell ymlaen llaw i fodloni eu gofynion cynllunio rhesymol) am ei ofynion mewn perthynas ag erbyn pryd y mae'n rhaid darparu marciau ar gyfer yr asesiad a deunyddiau mewn perthynas â'r asesiad iddo er mwyn ei alluogi i ymgymryd â'r gwaith Cymedroli.

### **Cymhwyso**

ASC.C5

Gall Cymwysterau Cymru gyhoeddi hysbysiadau o dan y paragraff hwn a all -

(a) cael eu cyhoeddi mewn perthynas ag un neu fwy o ASC.C2(b) i ASC.C2(i) ac ASC.C3

(b) cael eu cyhoeddi mewn perthynas ag un neu fwy o gymwysterau TGAU/TAG,

(c) cael eu hamrywio neu eu tynnu'n ôl gan Cymwysterau Cymru ar unrhyw adeg cyn y dyddiad a nodwyd arnynt neu a bennwyd yn unol â hwy.



## **Amod Safonol Ychwanegol D – Hysbysu am Ganlyniad Gwaith Cymedroli**

- ASC.D1 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo lle y caiff asesiad ei farcio gan Ganolfan, rhaid i gorff dyfarnu hysbysu'r Ganolfan o ganlyniad y gwaith Cymedroli er mwyn rhoi digon o amser i'r Ganolfan ystyried p'un a ddylid gwneud cais i adolygu'r gwaith Cymedroli, gan ystyried unrhyw derfyn amser ar gyfer cyflwyno cais o'r fath i'r corff dyfarnu.
- ASC.D2 Rhaid i'r hysbysiad a ddarperir gan gorff dyfarnu at ddibenion ASC.D1 nodi'r rhesymau am ganlyniad y gwaith Cymedroli.

## **Amod Safonol Ychwanegol E - Adolygu Gwaith Cymedroli**

- ASC.E1 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG sy'n cynnwys trefniadau Cymedroli a gynigir ganddo, neu y mae'n bwriadu ei gynnig, rhaid i gorff dyfarnu sefydlu, cynnal a chydymffurfio â threfniadau yn unol â'r amod hwn i unrhyw Ganolfan wneud cais i adolygu'r gwaith Cymedroli a wnaed gan y corff dyfarnu mewn perthynas ag unrhyw asesiad a farciwyd gan y Ganolfan ac i'r corff dyfarnu gynnal adolygiad o'r fath.
- ASC.E2 Gall y trefniadau -
- (a) darparu mai dim ond ar ôl talu ffi y bydd y corff dyfarnu yn cynnal adolygiad o'r gwaith Cymedroli,
  - (b) nodi gofynion eraill ar gyfer gwneud cais i adolygu gwaith Cymedroli, ar yr amod bod gofynion o'r fath yn rhesymol, a
  - (c) nodi terfyn amser ar gyfer gwneud cais am adolygiad o waith Cymedroli.
- ASC.E3 Lle bo'r trefniadau yn nodi terfyn amser ar gyfer gwneud cais am adolygiad o waith Cymedroli, rhaid i'r dyddiad -
- (a) bod yn rhesymol, gan ystyried y canlynol –
  - (i) y terfyn amser ar gyfer hysbysu Canolfan am ganlyniad gwaith Cymedroli yn unol â threfniadau'r corff dyfarnu, a
  - (ii) diben y cymhwyster TGAU/TAG, a
  - (b) cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodiad 1 yr Amodau hyn.
- ASC.E4 Rhaid i'r trefniadau ddarparu ar gyfer y canlynol, ar ôl cynnal adolygiad o'r gwaith Cymedroli -
- (a) y bydd y corff dyfarnu yn penderfynu, mewn perthynas â'r gwaith Cymedroli a gynhaliwyd ganddo o waith marcio'r Ganolfan mewn perthynas â'r asesiad, p'un a oedd y gwaith Cymedroli yn cynnwys unrhyw Wall Cymedroli,

(b) lle bo'r corff dyfarnu wedi penderfynu nad oedd y gwaith Cymedroli yn cynnwys Gwall Cymedroli, na fydd yn gwneud unrhyw newidiadau i ganlyniad y gwaith Cymedroli,

(c) lle bo'r corff dyfarnu wedi penderfynu bod y gwaith Cymedroli yn cynnwys Gwall Cymedroli, y bydd yn gwneud newidiadau i ganlyniad y gwaith Cymedroli i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn cywiro effaith y Gwall Cymedroli, ond na fydd yn gwneud unrhyw newidiadau eraill i ganlyniad y gwaith Cymedroli, a

(d) y bydd y corff dyfarnu yn dogfennu'r rhesymau am unrhyw benderfyniad ac am unrhyw newid i ganlyniad y gwaith Cymedroli.

ASC.E5

Rhaid i'r trefniadau ddarparu ar gyfer y canlynol -

(a) y caiff yr holl adolygiadau o waith Cymedroli eu cynnal gan unigolion sy'n meddu ar gymhwysedd priodol ac nad oes ganddynt unrhyw fuddiant personol yng nghanlyniad yr adolygiad a gynhelir,

(b) na ddylai unigolyn a gymerodd ran yn y broses o farcio asesiad gan Ganolfan neu mewn gwaith Cymedroli mewn perthynas â'r gwaith marcio hwnnw yn flaenorol fod yn rhan o'r broses Gymedroli mewn perthynas â'r gwaith marcio hwnnw,

(c) cyn cynnal unrhyw adolygiad o waith Cymedroli, y rhoddir hyfforddiant i bob unigolyn sy'n gyfrifol am gynnal adolygiad o'r fath o ran sut i wneud hynny yn unol â'r amod hwn,

(d) cyn cynnal adolygiad o waith Cymedroli, y rhoddir copi o'r canlynol i'r unigolion sy'n gyfrifol am gynnal adolygiad o'r fath –

- i. copi o unrhyw dystiolaeth a gynhyrchwyd gan Ddysgwyr (neu unrhyw gynrychioliad o dystiolaeth o'r fath) a ystyriwyd at ddiben y gwaith Cymedroli,
- ii. copi o'r cofnod o'r marciau a ddyfarnwyd gan yr Aseswyr adeg marcio'r dystiolaeth honno,
- iii. copi o unrhyw sylwadau a gofnododd yr Aseswyr wrth farcio'r dystiolaeth honno,
- iv. copi o'r meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu perfformiad y Dysgwyr yn eu herbyn, a
- v. canlyniad y gwaith Cymedroli a'r rhesymau am y canlyniad hwnnw,

(e) y bydd y corff dyfarnu yn monitro p'un a gynhelir adolygiadau o'r gwaith Cymedroli yn unol â'r amod hwn,

(f) lle bo'r corff dyfarnu yn dod i wybod, drwy ei waith monitro neu fel arall, na

chynhaliwyd adolygiad o'r gwaith Cymedroli yn unol â'r amod hwn, y bydd yn cymryd pob cam rhesymol i wneud y canlynol –

- i. cywiro effaith y methiant, neu lle na ellir ei chywiro, ei lliniaru cymaint â phosibl, a
- ii. sicrhau na fydd y methiant yn digwydd eto yn y dyfodol,

(g) y bydd y corff dyfarnu yn monitro p'un a yw'r unigolion sy'n cynnal yr adolygiadau o'r gwaith Cymedroli yn gwneud penderfyniadau sy'n gyson dros amser ac sy'n gyson â phenderfyniadau a wnaed gan y naill neu'r llall,

(h) lle bo'r corff dyfarnu yn dod i wybod, drwy ei waith monitro neu fel arall, nad yw penderfyniadau yn cael eu gwneud yn gyson dros amser neu rhwng yr unigolion sy'n cynnal yr adolygiadau o'r gwaith Cymedroli, y bydd yn cymryd pob cam rhesymol i hyrwyddo cysondeb yn y dyfodol,

(i) y bydd y corff dyfarnu yn hysbysu'r Ganolfan am ganlyniad yr adolygiad o'r gwaith Cymedroli a, naill ai ar y cyd â'r canlyniad hwnnw neu'n ddiweddarach, y rhesymau a ddogfennwyd pan gynhaliwyd yr adolygiad o'r gwaith Cymedroli, a

(j) wrth gynnal adolygiad o waith Cymedroli, pan fydd y corff dyfarnu yn darganfod Gwall Marcio, yn ei farn ef, wrth farcio asesiad, y bydd yn cynnwys manylion y Gwall Marcio yn ei adroddiad i'r Ganolfan ar ganlyniad yr adolygiad o'r gwaith Cymedroli.

ASC.E6

Ar ôl hysbysiad y corff dyfarnu o ganlyniad yr adolygiad o'r gwaith Cymedroli, rhaid i'r trefniadau ddarparu ar gyfer y canlynol -

(a) y caiff marciau a (lle y bo'n briodol) ganlyniadau eu diweddarau'n ddi-oed er mwyn ystyried unrhyw newid yng nghanlyniad y gwaith Cymedroli,

(b) y caiff marciau a (lle y bo'n briodol) ganlyniadau eu diweddarau'n ddi-oed er mwyn cywiro effaith unrhyw Wall Marcio y rhoddwyd gwybod i'r Ganolfan amdano yn unol â'r amod hwn, a

(c) y cymerir camau rhesymol i nodi unrhyw asesiad arall, y bu gwall tebyg mewn perthynas ag ef a diweddarau'r marciau a (lle y bo'n briodol) ganlyniadau yn ddi-oed er mwyn cywiro effaith unrhyw wall a nodir .

ASC.E7

Rhaid i gorff dyfarnu gyhoeddi datganiad o'r trefniadau, gan gynnwys manylion am -

(a) sut y dylid gwneud cais am adolygiad o waith Cymedroli,

(b) y terfyn amser ar gyfer gwneud cais am adolygiad o waith Cymedroli,

(c) unrhyw ffi sy'n daladwy fel rhan o'r trefniadau, o dan ba amgylchiadau y codir ffi o'r fath ac o dan ba amgylchiadau y caiff unrhyw ffi o'r fath ei had-dalu,

(d) yr hyfforddiant y bydd y corff dyfarnu yn ei ddarparu i unigolion sy'n gyfrifol am gynnal adolygiad o waith Cymedroli cyn iddynt gynnal adolygiad o'r fath,

(e) y gwaith monitro y bydd y corff dyfarnu yn ei gynnal o adolygiadau o waith Cymedroli,

(f) y camau gweithredu y bydd y corff dyfarnu yn eu cymryd os daw i wybod na chynhaliwyd adolygiadau o waith Cymedroli yn unol â'r amod hwn,

(g) y camau gweithredu y bydd y corff dyfarnu yn eu cymryd os daw i wybod nad yw penderfyniadau a wneir ar adolygiadau o waith Cymedroli yn cael eu gwneud yn gyson dros amser na rhwng unigolion sy'n cynnal adolygiadau o'r fath, a

(h) y cyfnod amser targed ar gyfer y cyfnod yn dilyn cais am adolygiad o waith Cymedroli i'r corff dyfarnu roi gwybod i'r Ganolfan am ganlyniad yr adolygiad a'r targed ar gyfer y cyfnod amser yn dilyn cais o'r fath i'r corff dyfarnu hefyd roi gwybod am y rhesymau am gynnal yr adolygiad.

### **Cymhwyso**

ASC.E8

Tan y cyfryw ddyddiad a nodir mewn unrhyw hysbysiad ysgrifenedig neu a bennir yn unol ag unrhyw hysbysiad ysgrifenedig a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru o dan y paragraff hwn, caiff ASC.E6 ei ddisodli gan *'Ar ôl hysbysiad y corff dyfarnu o ganlyniad yr adolygiad o'r gwaith Cymedroli, rhaid i'r trefniadau ddarparu ar gyfer y canlynol* -

*(a) y caiff marciau a (lle y bo'n briodol) ganlyniadau eu diweddarau'n ddi-oed er mwyn ystyried unrhyw newid yng nghanlyniad y gwaith Cymedroli,*

*(b) y caiff marciau a (lle y bo'n briodol) ganlyniadau eu diweddarau'n ddi-oed er mwyn cywiro effaith unrhyw Wall Marcio y rhoddwyd gwybod i'r Ganolfan amdano yn unol â'r amod hwn, a*

*(c) y cymerir camau rhesymol i nodi unrhyw asesiad arall, y bu gwall tebyg mewn perthynas ag ef ac i ddiweddarau'r marciau a (lle y bo'n briodol) ganlyniadau yn ddi-oed er mwyn cywiro effaith unrhyw wall a nodir,*

*ar yr amod na chaff canlyniad Dysgwr ei ddiweddarau fel bod y canlyniad hwnnw yn is.*

ASC.E9

Gall unrhyw hysbysiad o'r fath a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru -

(a) cael ei gyhoeddi mewn perthynas ag un neu fwy o gymwysterau TGAU/TAG, a

(b) cael ei amrywio neu ei dynnu'n ôl gan Cymwysterau Cymru ar unrhyw adeg cyn y dyddiad a nodir arno neu a bennwyd yn unol ag ef.

## Amod Safonol Ychwanegol F – Sicrhau bod Deunyddiau Asesu wedi'u Marcio ar gael i Ddysgwyr

- ASC.F1 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo, neu y mae'n bwriadu ei gynneg, rhaid i gorff dyfarnu sefydlu, cynnal a chydymffurfio â threfniadau yn unol â'r amod hwn i sicrhau bod Deunydd Asesu Dysgwr wedi'i Farcio mewn perthynas ag unrhyw asesiad ar gyfer y cymhwyster hwnnw ar gael i –
- (a) y Dysgwr, neu
  - (b) lle y darparwyd yr asesiad gan Ganolfan Berthnasol, naill ai'r Dysgwr neu'r Ganolfan Berthnasol (ar ran y Dysgwr)
- ASC.F2 Gall y trefniadau -
- (a) darparu nad yw'n ofynnol i'r corff dyfarnu gymryd camau pellach i sicrhau bod copi neu gynrychioliad o'r dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Dysgwr yn yr asesiad ar gael lle mae'r dystiolaeth (neu gopi o'r dystiolaeth) eisoes ym meddiant y Dysgwr neu, os yw'r asesiad wedi'i ddarparu gan Ganolfan Berthnasol, lle mae'r dystiolaeth ym meddiant y Dysgwr neu'r Ganolfan Berthnasol,
  - (b) darparu mai dim ond ar ôl talu ffi y bydd y corff dyfarnu yn darparu Deunydd Asesu wedi'i Farcio,
  - (c) darparu mai dim ond ar gais y bydd y corff dyfarnu yn darparu Deunydd Asesu wedi'i Farcio,
  - (d) darparu, lle y cyflawnwyd yr asesiad gan Ganolfan Berthnasol, bod yn rhaid i'r Ganolfan Berthnasol gyflwyno unrhyw gais o'r fath (ar ran y Dysgwr),
  - (e) nodi gofynion eraill ar gyfer gwneud cais o'r fath, ar yr amod bod gofynion o'r fath yn rhesymol, a
  - (f) nodi terfyn amser ar gyfer gwneud cais o'r fath.
- ASC.F3 Mewn perthynas â phob **cymhwyster TAG** a gynigir ganddo, neu y mae'n bwriadu ei gynneg, rhaid i'r trefniadau -
- (a) rhoi cyfle rhesymol i Ddysgwyr a Chanolfannau Perthnasol ystyried p'un a ddylid gwneud cais i'r corff dyfarnu gynnal Adolygiad o Wallau Gweinyddol mewn perthynas â'r Deunydd Asesu wedi'i Farcio, a
  - (b) rhoi cyfle rhesymol i Ddysgwyr a Chanolfannau Perthnasol ystyried p'un a ddylid gwneud cais i'r corff dyfarnu gynnal adolygiad o'r gwaith o farcio'r Deunydd Asesu wedi'i Farcio,
- gan ystyried unrhyw derfyn amser ar gyfer cyflwyno cais o'r fath i'r corff dyfarnu.

- ASC.F4 Rhaid i unrhyw ddyddiad a nodir yn y trefniadau -
- (a) i'r corff dyfarnu ddarparu Deunydd Asesu wedi'i Farcio i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan Berthnasol os yw'n briodol), neu
- (b) i dderbyn cais i ddarparu Deunydd Asesu wedi'i Farcio gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodiad 1 yr Amodau hyn.
- ASC.F5 Rhaid i'r trefniadau nodi y dylid darparu copi o'r meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu perfformiad Dysgwyr mewn perthynas â'r asesiad i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan Berthnasol os yw'n briodol) ar yr un pryd ag y darperir y Deunydd Asesu wedi'i Farcio neu cyn hynny.
- ASC.F6 Rhaid i gorff dyfarnu gyhoeddi datganiad o'r trefniadau, gan gynnwys manylion am y canlynol -
- (a) sut y dylid gwneud unrhyw gais i ddarparu Deunydd Asesu wedi'i Farcio ac unrhyw derfyn amser ar gyfer cyflwyno cais o'r fath,
- (b) unrhyw ffi sy'n daladwy fel rhan o'r trefniadau, o dan ba amgylchiadau y codir ffi o'r fath ac o dan ba amgylchiadau y gellir ad-dalu unrhyw ffi o'r fath, a
- (c) unrhyw derfyn amser i'r corff dyfarnu ddarparu'r Deunydd Asesu wedi'i Farcio i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan Berthnasol os yw'n briodol) neu unrhyw darged ar gyfer y cyfnod amser yn dilyn cais lle y bydd y corff dyfarnu wedi darparu'r Deunydd Asesu wedi'i Farcio i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan Berthnasol os yw'n briodol).

### **Cymhwyso**

- ASC.F7 Gall Cymwysterau Cymru gyhoeddi hysbysiadau o dan y paragraff hwn a all -
- (a) cael eu cyhoeddi mewn perthynas ag un neu fwy o gymwysterau TGAU,
- (b) cael eu hamrywio neu eu tynnu'n ôl gan Cymwysterau Cymru ar unrhyw adeg cyn y dyddiad a nodwyd arnynt neu a bennwyd yn unol â hwy.

### **Amod Safonol Ychwanegol G - Adolygiad o Wallau Gweinyddol**

- ASC.G1 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo, neu y mae'n bwriadu ei gynig, rhaid i gorff dyfarnu sefydlu, cynnal a chydymffurfio â threfniadau yn unol â'r amod hwn i unrhyw Ddysgwr wneud cais, neu gais ar ran y Dysgwr, i'r corff dyfarnu gynnal Adolygiad o Wallau Gweinyddol mewn perthynas â Deunydd Asesu wedi'i Farcio'r Dysgwr hwnnw ar gyfer unrhyw asesiad ar gyfer y cymhwyster hwnnw ac i'r corff dyfarnu gynnal Adolygiad o Wallau Gweinyddol o'r fath.
- ASC.G2 Gall y trefniadau -
- (a) darparu, lle mae'r Deunydd Asesu wedi'i Farcio yn ymwneud ag asesiad a

gyflawnwyd gan Ganolfan Berthnasol, bod yn rhaid i'r Ganolfan Berthnasol gyflwyno unrhyw gais am Adolygiad o Wallau Gweinyddol (ar ran y Dysgwr),

(b) darparu mai dim ond ar ôl talu ffi y bydd y corff dyfarnu yn cynnal Adolygiad o Wallau Gweinyddol,

(c) nodi gofynion eraill ar gyfer gwneud cais am Adolygiad o Wallau Gweinyddol, ar yr amod bod gofynion o'r fath yn rhesymol, a

(d) nodi'r terfyn amser ar gyfer gwneud cais am Adolygiad o Wallau Gweinyddol

ASC.G3 Lle mae'r trefniadau yn nodi terfyn amser ar gyfer gwneud cais am Adolygiad o Wallau Gweinyddol, rhaid i'r dyddiad -

(a) bod yn rhesymol, gan ystyried y canlynol –

(i) y terfyn amser ar gyfer darparu'r Deunydd Asesu wedi'i Farcio i'r Dysgwr yn unol â threfniadau'r corff dyfarnu, a

(ii) diben y cymhwyster TGAU/TAG, a

(b) cydymffurfio ag unrhyw ofynion y gall Cymwysterau Cymru eu cyhoeddi a'u diwygio o bryd i'w gilydd.

ASC.G4 Pan gynhelir Adolygiad o Wallau Gweinyddol, rhaid i'r trefniadau wneud y canlynol yn ofynnol -

(a) lle bydd y corff dyfarnu wedi penderfynu bod y gwaith marcio a gofnodwyd yn y Deunydd Asesu wedi'i Farcio yn cynnwys Gwall Gweinyddol, y bydd yn cywiro effaith y Gwall Gweinyddol,

(b) lle bydd y corff dyfarnu o'r farn nad yw'r gwaith marcio a gofnodwyd yn y Deunydd Asesu wedi'i Farcio yn cynnwys Gwall Gweinyddol, na fydd yn gwneud unrhyw newid i'r marc a ddyfarnwyd,

(c) lle bydd yr Adolygiad o Wallau Gweinyddol yn penderfynu y dylid newid marciau, y bydd y corff dyfarnu yn gwneud unrhyw newid dilynol i ganlyniad y Dysgwr, a

(d) bydd y corff dyfarnu yn rhoi gwybod i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan Berthnasol os yw'n briodol) am ganlyniad yr Adolygiad o Wallau Gweinyddol, gan nodi unrhyw newid mewn marciau, unrhyw newid o ran y canlyniad, a manylion am natur unrhyw Wall Gweinyddol a ddarganfuwyd.

ASC.G5 Rhaid i'r trefniadau ei gwneud yn ofynnol i bob Adolygiad o Wallau Gweinyddol gael ei gynnal gan unigolion sy'n meddu ar gymhwysedd priodol ac nad oes ganddynt unrhyw fuddiant personol yng nghanlyniad yr Adolygiad o Wallau Gweinyddol a gynhelir.

ASC.G6 Rhaid i gorff dyfarnu gyhoeddi datganiad o'r trefniadau, gan gynnwys manylion am y canlynol -

- (a) sut y dylid gwneud cais am Adolygiad o Wallau Gweinyddol,
- (b) y terfyn amser ar gyfer gwneud cais am Adolygiad o Wallau Gweinyddol
- (c) unrhyw ffi sy'n daladwy fel rhan o'r trefniadau, o dan ba amgylchiadau y codir ffi o'r fath ac o dan ba amgylchiadau y gellir ad-dalu unrhyw ffi o'r fath, a
- (d) y targed ar gyfer y cyfnod amser yn dilyn cais am Adolygiad o Wallau Gweinyddol i'r corff dyfarnu roi gwybod i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan Berthnasol os yw'n briodol) am ganlyniad yr Adolygiad o Wallau Gweinyddol.

## **Amod Safonol Ychwanegol H - Adolygu gwaith marcio ar gyfer Deunydd Asesu wedi'i Farcio**

- ASC.H1 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo, neu y mae'n bwriadu ei gynbig, rhaid i gorff dyfarnu sefydlu, cynnal a chydymffurfio â threfniadau yn unol â'r amod hwn i unrhyw Ddysgwr wneud cais, neu gais ar ran y Dysgwr, i'r corff dyfarnu gynnal adolygiad o'r gwaith marcio mewn perthynas â Deunydd Asesu wedi'i Farcio'r Dysgwr hwnnw ar gyfer unrhyw asesiad ar gyfer y cymhwyster hwnnw ac i'r corff dyfarnu gynnal adolygiad o'r fath.
- ASC.H2 Gall y trefniadau -
- (a) darparu, lle mae'r Deunydd Asesu wedi'i Farcio yn ymwneud ag asesiad a gyflawnwyd gan Ganolfan Berthnasol, bod yn rhaid i'r Ganolfan Berthnasol gyflwyno unrhyw gais am adolygiad o'r gwaith marcio mewn perthynas â'r Deunydd Asesu wedi'i Farcio (ar ran y Dysgwr),
  - (b) darparu mai dim ond ar ôl talu ffi y bydd y corff dyfarnu yn cynnal adolygiad o'r gwaith marcio mewn perthynas â'r Deunydd Asesu wedi'i Farcio,
  - (c) nodi gofynion eraill ar gyfer gwneud cais i adolygu gwaith marcio, ar yr amod bod gofynion o'r fath yn rhesymol, a
  - (d) nodi terfyn amser ar gyfer gwneud cais am adolygiad o waith marcio.
- ASC.H3 Lle bo'r trefniadau yn nodi terfyn amser ar gyfer gwneud cais am adolygiad o waith marcio mewn perthynas â Deunydd Asesu wedi'i Farcio, rhaid i'r dyddiad -
- (a) bod yn rhesymol, gan ystyried y canlynol –
    - (i) y terfyn amser ar gyfer darparu'r Deunydd Asesu wedi'i Farcio i'r Dysgwr yn unol â threfniadau'r corff dyfarnu, a
    - (ii) diben y cymhwyster TGAU/TAG, a



(b) cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodiad 1 yr Amodau hyn.

ASC.H4

Rhaid i'r trefniadau ddarparu ar gyfer y canlynol, ar ôl cynnal adolygiad o waith marcio mewn perthynas â Deunydd Asesu wedi'i Farcio -

(a) y bydd yr Aseswr yn penderfynu, mewn perthynas â phob tasg yn yr asesiad y gellid bod wedi dyfarnu marciau ar ei chyfer, ac mewn perthynas â'r asesiad yn gyffredinol, p'un a oedd y gwaith marcio yn cynnwys unrhyw Wall Marcio,

(b) lle bo'r Aseswr wedi penderfynu nad oedd y gwaith marcio mewn perthynas â'r asesiad yn cynnwys unrhyw Wall Marcio, na fydd yr Aseswr yn gwneud unrhyw newidiadau i'r marc a ddyfarnwyd,

(c) lle bo'r Aseswr wedi penderfynu bod y gwaith marcio mewn perthynas â'r asesiad yn cynnwys Gwall Marcio, y bydd yr Aseswr yn cywiro effaith y Gwall Marcio ond ni fydd yn gwneud unrhyw newidiadau eraill i'r marc a ddyfarnwyd, a

(d) bydd yr Aseswr yn dogfennu'r rhesymau am unrhyw benderfyniad ac am unrhyw newid o ran marciau.

ASC.H5

Rhaid i'r trefniadau ddarparu ar gyfer y canlynol -

(a) y caiff yr holl adolygiadau o waith marcio mewn perthynas â Deunydd Asesu wedi'u Farcio eu cynnal gan Aseswyr sy'n meddu ar gymhwysedd priodol ac nad oes ganddynt unrhyw fuddiant personol yng nghanlyniad yr adolygiad a gynhelir,

(b) na fydd Aseswr a gymerodd ran yn y broses o farcio tasg mewn asesiad yn flaenorol mewn perthynas â Dysgwr yn rhan o adolygiad o'r gwaith marcio mewn perthynas â Deunydd Asesu wedi'i Farcio'r Dysgwr mewn perthynas â'r dasg honno,

(c) cyn cynnal unrhyw adolygiad o waith marcio, y rhoddir hyfforddiant i bob Aseswr o ran sut i gynnal adolygiad o'r gwaith marcio yn unol â'r amod hwn,

(d) cyn cynnal adolygiad o'r gwaith marcio mewn perthynas ag unrhyw Ddeunydd Asesu wedi'i Farcio, y bydd Aseswr yn cael copi o'r Deunydd Asesu wedi'i Farcio a chopi o'r meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu perfformiad Dysgwyr yn eu herbyn,

(e) y bydd y corff dyfarnu yn monitro p'un a yw'r Aseswyr sy'n cynnal adolygiadau o waith marcio yn gwneud hynny yn unol â'r amod hwn,

(f) lle bo'r corff dyfarnu yn dod i wybod, drwy ei waith monitro neu fel arall, nad yw Aseswr yn cynnal adolygiadau o waith marcio yn unol â'r amod hwn, y bydd yn cymryd pob cam rhesymol i wneud y canlynol –

- i. cywiro effaith y methiant, neu lle na ellir ei chywiro, ei lliniaru cymaint â phosibl, a

ii. sicrhau na fydd y methiant yn digwydd eto yn y dyfodol,

(g) y bydd y corff dyfarnu yn monitro p'un a yw'r Aseswyr sy'n cynnal yr adolygiadau o'r gwaith marcio yn gwneud penderfyniadau sy'n gyson dros amser ac sy'n gyson â phenderfyniadau a wnaed gan y naill neu'r llall,

(h) lle bo'r corff dyfarnu yn dod i wybod, drwy ei waith monitro neu fel arall, nad yw penderfyniadau yn cael eu gwneud yn gyson dros amser neu rhwng Aseswyr, y bydd yn cymryd pob cam rhesymol i hyrwyddo cysondeb yn y dyfodol,

(i) lle bydd adolygiad o waith marcio yn penderfynu y dylid newid marciau, bydd y corff dyfarnu yn gwneud unrhyw newid dilynol i ganlyniad y Dysgwr, a

(j) bydd y corff dyfarnu –

(i) yn rhoi gwybod i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan Berthnasol os yw'n briodol) am ganlyniad yr adolygiad o'r gwaith marcio, gan nodi unrhyw newid o ran marciau ac unrhyw newid i'r canlyniad, a

(ii) lle y gwneir cais am hynny, yn rhoi gwybod i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan Berthnasol os yw'n briodol) am y rhesymau a ddogfennwyd gan yr Aseswr a gynhaliodd yr adolygiad, ar yr amod y gall y corff dyfarnu nodi cyfnod amser rhesymol ar ôl rhoi gwybod am ganlyniad yr adolygiad ar gyfer derbyn cais o'r fath.

ASC.H6

Rhaid i gorff dyfarnu gyhoeddi datganiad o'r trefniadau, gan gynnwys manylion am y canlynol -

(a) sut y dylid gwneud cais am adolygiad o waith marcio mewn perthynas â Deunydd Asesu wedi'i Farcio,

(b) unrhyw ddyddiad ar gyfer cyflwyno cais am adolygiad o waith marcio ac unrhyw derfyn amser ar gyfer derbyn cais i roi gwybod am y rhesymau mewn perthynas â'r adolygiad,

(c) unrhyw ffi sy'n daladwy fel rhan o'r trefniadau, o dan ba amgylchiadau y codir ffi o'r fath ac o dan ba amgylchiadau y gellir ad-dalu unrhyw ffi o'r fath,

(d) yr hyfforddiant y bydd y corff dyfarnu yn ei ddarparu i Aseswyr cyn cynnal adolygiad o waith marcio,

(e) y gwaith monitro y bydd y corff dyfarnu yn ei gynnal o Aseswyr sy'n cynnal adolygiadau o waith marcio,

(f) y camau gweithredu y bydd y corff dyfarnu yn eu cymryd os daw i wybod nad yw Aseswr yn cynnal adolygiadau o waith marcio yn unol â'r amod hwn,

(g) y camau gweithredu y bydd y corff dyfarnu yn eu cymryd os daw i wybod nad yw penderfyniadau yn cael eu gwneud yn gyson dros amser na rhwng Aseswyr, a

(h) y targed ar gyfer y cyfnod amser yn dilyn cais am adolygiad o waith marcio i'r corff dyfarnu roi gwybod i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan Berthnasol os yw'n briodol) am ganlyniad yr adolygiad.

## **Amod Safonol Ychwanegol I - Y broses apeliadau ar gyfer cymwysterau TGAU/TAG**

- ASC.I1 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir gan gorff dyfarnu, neu y mae'n bwriadu ei gynnig, nid yw Amod Safonol I1 (Y broses apeliadau) yn gymwys.
- ASC.I2 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo , neu y mae'n bwriadu ei gynnig, yn ogystal â'r trefniadau eraill y mae'n ofynnol eu sefydlu, eu cynnal a chydymffurfio â hwy yn unol â'r Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol, rhaid i gorff dyfarnu sefydlu, cynnal a chydymffurfio â phroses apeliadau yn unol â'r amod hwn, y mae'n rhaid i'r broses honno ddarparu ar gyfer apelio yn erbyn y canlynol -
- (a) canlyniad unrhyw waith Cymedroli mewn perthynas â gwaith marcio Canolfan o asesiad, yn dilyn adolygiad o'r gwaith Cymedroli mewn perthynas â'r gwaith marcio hwnnw,
- (b) canlyniad unrhyw asesiad mewn perthynas â Dysgwr, yn dilyn adolygiad o waith marcio mewn perthynas â Deunydd Asesu wedi'i Farcio mewn perthynas â'r asesiad hwnnw,
- (c) penderfyniadau ynghylch Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig, a
- (d) penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd yn erbyn Dysgwr neu Ganolfan yn dilyn ymchwiliad i achos o gamymddwyn neu gamweinyddu.
- ASC.I3 Gall y broses apeliadau –
- (a) darparu mai dim ond ar ôl talu ffi y bydd y corff dyfarnu yn cynnal apêl,
- (b) nodi gofynion eraill ar gyfer gwneud cais am apêl, ar yr amod bod gofynion o'r fath yn rhesymol, a
- (c) nodi cyfnod amser ar gyfer gwneud cais am apêl.
- ASC.I4 Lle bo'r trefniadau yn nodi cyfnod amser ar gyfer gwneud cais am apêl, rhaid i'r cyfnod amser –
- (a) bod yn rhesymol, a
- (b) cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodiad 1 yr Amodau hyn..
- ASC.I5 Rhaid i'r broses apeliadau ddarparu ar gyfer y canlynol –

(a) y caiff pob penderfyniad ar apêl ei wneud gan unigolion sy'n meddu ar gymhwysedd priodol ac nad oes ganddynt unrhyw fuddiant personol yn y penderfyniad y cyflwynir apêl yn ei erbyn,

(b) y caiff pob penderfyniad ar apêl ei wneud gan unigolion nad oeddent yn rhan o unrhyw waith marcio yn flaenorol, gwaith Cymedroli, adolygiad o waith marcio mewn perthynas â Deunydd Asesu wedi'i Farcio nac adolygiad o Waith Cymedroli blaenorol sy'n ymwneud ag asesiad mewn perthynas â Dysgwr y mae'r apêl yn ymwneud ag ef,

(c) y bydd y penderfyniad terfynol mewn perthynas â chanlyniad apêl yn cynnwys o leiaf un gwneuthurwr penderfyniad nad yw wedi'i gyflogi gan y corff dyfarnu, yn Aseswr sy'n gweithio ar ran y corff dyfarnu, neu'n ymwneud fel arall â'r corff dyfarnu, a

(d) y bydd y corff dyfarnu yn rhoi gwybod i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan Berthnasol os yw'n briodol) am ganlyniad apêl, gan nodi'r rhesymau am y canlyniad hwnnw.

ASC.I6 Ni ddylai'r broses apeliadau ganiatáu unrhyw newid i lefel cyrhaeddiad benodedig a bennwyd ar gyfer y cymhwyster TGAU/TAG.

ASC.I7 At ddibenion ASC.I2(a),

(a) rhaid i'r broses apeliadau sydd ar waith gan gorff dyfarnu mewn perthynas â phob **cymhwyster TAG** a gynigir ganddo, neu y mae'n bwriadu ei gynnig, ddarparu ar gyfer apeliadau effeithiol yn erbyn canlyniadau gwaith Cymedroli ar y sail –

(i) bod y gwaith Cymedroli (neu'r adolygiad o'r gwaith Cymedroli os yw'n briodol) yn cynnwys Gwall Cymedroli, a

(ii) na chymhwysodd y corff dyfarnu'r gweithdrefnau'n gyson neu na ddilynwyd y gweithdrefnau mewn ffordd briodol a theg, ar yr amod na fydd unrhyw enghraifft o arddel barn academiaidd mewn perthynas â chanlyniad y gwaith Cymedroli, at y dibenion hyn, yn gyfystyr â chymhwyso neu ddilyn gweithdrefn.

(b) rhaid i'r broses apeliadau sydd ar waith gan gorff dyfarnu mewn perthynas â phob **cymhwyster TGAU** a gynigir ganddo, neu y mae'n bwriadu ei gynnig, ddarparu ar gyfer apeliadau effeithiol yn erbyn canlyniadau gwaith Cymedroli ar y sail na chymhwysodd y corff dyfarnu'r gweithdrefnau'n gyson neu na ddilynwyd y gweithdrefnau mewn ffordd briodol a theg.

ASC.I8 At ddibenion ASC.I2(a), rhaid i'r broses apeliadau sydd ar waith gan gorff dyfarnu ddarparu i unrhyw gais am apêl yn erbyn canlyniad gwaith Cymedroli o waith marcio'r Ganolfan mewn perthynas ag asesiad gael ei wneud gan y Ganolfan.

ASC.I9 At ddibenion ASC.I2(b);

(a) rhaid i'r broses apeliadau sydd ar waith gan gorff dyfarnu mewn perthynas â phob **cymhwyster TAG** a gynigir ganddo ddarparu ar gyfer apeliadau effeithiol yn erbyn canlyniadau ar y sail –

(i) bod y gwaith o farcio'r asesiad (neu'r adolygiad o'r gwaith o farcio Deunydd Asesu wedi'i Farcio os yw'n briodol) yn cynnwys Gwall Marcio, a

(ii) na chymhwysodd y corff dyfarnu'r gweithdrefnau'n gyson neu na ddilynwyd y gweithdrefnau mewn ffordd briodol a theg, ar yr amod, at y dibenion hyn –

(1) y caiff unrhyw weithdrefnau mewn perthynas â phennu lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer y cymhwyster TGAU/TAG eu heithrio, a

(2) na fydd unrhyw enghraifft o arddel barn academaidd mewn perthynas â dyfarnu marciau yn gyfystyr â chymhwysu neu ddilyn gweithdrefn.

(b) rhaid i'r broses apeliadau sydd ar waith gan gorff dyfarnu mewn perthynas â phob **cymhwyster TGAU** a gynigir ganddo ddarparu ar gyfer apeliadau effeithiol yn erbyn canlyniadau ar y sail na chymhwysodd y corff dyfarnu'r gweithdrefnau'n gyson neu na ddilynwyd y gweithdrefnau mewn ffordd briodol a theg, ar yr amod y caiff unrhyw weithdrefnau mewn perthynas â phennu lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer y cymhwyster TGAU/TAG eu heithrio.

ASC.I10 At ddibenion ASC.I2(b) i ASC.I2(d), gall y broses apeliadau sydd ar waith gan gorff dyfarnu nodi lle y cyflawnwyd asesiad gan Ganolfan Berthnasol, bod yn rhaid i'r Ganolfan Berthnasol gyflwyno unrhyw gais am apêl mewn perthynas â Dysgwr sy'n ymwneud â'r asesiad (ar ran y Dysgwr).

ASC.I11 Rhaid i gorff dyfarnu gyhoeddi gwybodaeth am y broses apeliadau sydd ar waith ganddo er mwyn gallu apelio yn erbyn canlyniadau asesiadau a gwaith Cymedroli, gan gynnwys manylion am y canlynol -

(a) sut y dylid gwneud cais am apêl,

(b) unrhyw gyfnod amser ar gyfer gwneud cais am apêl,

(c) unrhyw ffi sy'n daladwy fel rhan o'r trefniadau, o dan ba amgylchiadau y codir ffi o'r fath ac o dan ba amgylchiadau y gellir ad-dalu unrhyw ffi o'r fath,

(d) y targed ar gyfer y cyfnod amser yn dilyn cais am apêl i'r corff dyfarnu roi gwybod i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan os yw'n briodol) am ganlyniad yr apêl, a

(e) y targed ar gyfer y cyfnod amser ar ôl derbyn yr holl dystiolaeth mewn perthynas ag apêl i'r corff dyfarnu roi gwybod i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan os yw'n briodol) am ganlyniad yr apêl.

## **Cymhwyso**

- ASC.I12 Tan y cyfryw ddyddiad ag a nodir mewn unrhyw hysbysiad ysgrifenedig a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru yn unol â'r paragraff hwn neu a bennir yn unol ag ef, caiff ASCI.8 ei ddisodli gan 'At ddibenion ASC.I2(1), rhaid i'r broses apeliadau sydd ar waith gan gorff dyfarnu ddarparu ar gyfer y canlynol -
- (a) i unrhyw gais am apêl yn erbyn canlyniad gwaith Cymedroli o waith marcio'r Ganolfan mewn perthynas ag asesiad gael ei wneud gan y Ganolfan, a*
- (b) yn dilyn canlyniad apêl, na chaiff canlyniad Dysgwr ei ddiweddarau fel bod y canlyniad hwnnw yn is'.*
- ASC.I13 Gall unrhyw hysbysiad a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru yn unol ag ASC.I12 –
- (a) cael ei gyhoeddi mewn perthynas ag un neu fwy o gymwysterau TGAU/TAG, a
- (b) cael ei amrywio neu ei dynnu'n ôl gan Cymwysterau Cymru ar unrhyw adeg cyn y dyddiad a nodir arno neu a bennwyd yn unol ag ef.

## **Amod Safonol Ychwanegol J – Penderfyniadau gan Ganolfannau ynghylch Trefniadau Adolygu**

- ASC.J1 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo, lle mae trefniadau corff dyfarnu yn darparu bod yn rhaid i Ganolfan Berthnasol gyflwyno'r canlynol ar ran Dysgwr -
- (a) cais i ddarparu Deunydd Asesu wedi'i Farcio,
- (b) cais i gynnal Adolygiad o Wallau Gweinyddol,
- (c) cais i gynnal adolygiad o waith marcio mewn perthynas â Deunydd Asesu wedi'i Farcio,
- (d) cais am apêl mewn perthynas â chanlyniad asesiad,
- (e) cais am apêl yn erbyn penderfyniad mewn perthynas ag Addasiadau Rhesymol neu Ystyriaeth Arbennig, neu
- (f) cais am apêl yn erbyn penderfyniad sy'n ymwneud â'r camau gweithredu a gymerwyd yn erbyn Dysgwr yn dilyn ymchwiliad i achos o gamymddwyn neu gamweinyddu,
- rhaid i'r corff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith gan y Ganolfan Berthnasol i'r Dysgwr wneud cais i'r Ganolfan Berthnasol er mwyn iddi gyflwyno cais o'r fath ac i'r Dysgwr apelio yn erbyn penderfyniad Canolfan Berthnasol na ddylid cyflwyno cais o'r fath.

ASC.J2 At ddibenion yr amod hwn, rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol er mwyn sicrhau'r canlynol –

(a) bod y Ganolfan Berthnasol yn sicrhau bod Dysgwyr yn ymwybodol o'r trefniadau sydd ar waith ganddo cyn cyhoeddi canlyniadau mewn perthynas â'r asesiad, a

(b) bod y Ganolfan Berthnasol yn rhoi datganiad o'r trefniadau i Ddysgwyr yn ddi-oed pan ofynnir amdano.

### **Amod Safonol Ychwanegol K – Perfformiad targed mewn perthynas â Threfniadau Adolygu a'r broses apeliadau**

ASC.K1 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo, neu y mae'n bwriadu ei gynnig, lle bo trefniadau corff dyfarnu yn nodi y gall ddarparu Deunydd Asesu wedi'i Farcio'r Dysgwr ar gais, rhaid iddo bennu targed ar gyfer y cyfnod amser yn dilyn cais o'r fath ar gyfer darparu'r Deunydd Asesu wedi'i Farcio i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan Berthnasol os yw'n briodol).

ASC.K2 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo, neu y mae'n bwriadu ei gynnig, rhaid i gorff dyfarnu bennu targedau ar gyfer pob un o'r cyfnodau amser canlynol -

(a) y cyfnod yn dilyn cais am adolygiad o waith Cymedroli a wnaed gan y corff dyfarnu lle bydd y corff dyfarnu wedi rhoi gwybod i'r Ganolfan am ganlyniad yr adolygiad o'r gwaith Cymedroli,

(b) y cyfnod yn dilyn cais am adolygiad o'r fath o waith Cymedroli lle bydd y corff dyfarnu wedi rhoi gwybod i'r Ganolfan am ganlyniad yr adolygiad o'r gwaith Cymedroli a'r rhesymau dros gynnal yr adolygiad,

(c) y cyfnod yn dilyn cais am Adolygiad o Wallau Gweinyddol lle bydd y corff dyfarnu wedi rhoi gwybod i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan Berthnasol os yw'n briodol) am ganlyniad yr Adolygiad o Wallau Gweinyddol,

(d) y cyfnod yn dilyn cais am adolygiad o waith marcio mewn perthynas â Deunydd Asesu wedi'i Farcio lle bydd y corff dyfarnu wedi rhoi gwybod i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan Berthnasol os yw'n briodol) am ganlyniad yr adolygiad o'r gwaith marcio,

(e) y cyfnod yn dilyn cais am adolygiad o'r fath o waith marcio lle bydd y corff dyfarnu wedi rhoi gwybod i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan Berthnasol os yw'n briodol) am ganlyniad yr adolygiad o'r gwaith marcio a'r rhesymau dros gynnal yr adolygiad,

(f) y cyfnod yn dilyn cais am apêl lle bydd y corff dyfarnu wedi rhoi gwybod i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan os yw'n briodol) am ganlyniad yr apêl, a

(g) y cyfnod ar ôl derbyn yr holl dystiolaeth mewn perthynas ag

apêl lle bydd y corff dyfarnu wedi rhoi gwybod i'r Dysgwr (neu'r Ganolfan os yw'n briodol) am ganlyniad yr apêl.

ASC.K3 Rhaid i unrhyw gyfnod amser targed a bennir gan gorff dyfarnu mewn perthynas â chymhwyster TGAU/TAG gydymffurfio ag unrhyw ofynion y gall Cymwysterau Cymru eu cyhoeddi a'u diwygio o bryd i'w gilydd.

ASC.K4 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i fodloni'r cyfnodau amser targed a bennwyd ganddo mewn perthynas â chymhwyster TGAU/TAG.

### **Cymhwyso**

ASC.K5 Ni fydd ASC.K2(e) yn gymwys i gorff dyfarnu tan y cyfryw ddyddiad ag a nodir mewn unrhyw hysbysiad ysgrifenedig a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru yn unol â'r paragraff hwn neu a bennir yn unol ag ef.

ASC.K6 Gall unrhyw hysbysiad o'r fath a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru -

(a) cael ei gyhoeddi mewn perthynas ag un neu fwy o gymwysterau TGAU/TAG, a

(b) cael ei amrywio neu ei dynnu'n ôl gan Cymwysterau Cymru ar unrhyw adeg cyn y dyddiad a nodir arno neu a bennwyd yn unol ag ef.

## **Amod Safonol Ychwanegol L – Cofnodi data sy'n ymwneud â Threfniadau Adolygu a'r broses apeliadau**

ASC.L1 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo, rhaid i gorff dyfarnu baratoi a chyhoeddi adroddiad mewn perthynas â phob blwyddyn, gan nodi'r canlynol mewn perthynas â'r flwyddyn honno -

(a) nifer yr adolygiadau o waith Cymedroli a gynhaliwyd gan y corff dyfarnu a nifer yr adolygiadau a arweiniodd at newid canlyniad y gwaith Cymedroli,

(b) natur unrhyw Wallau Cymedroli a arweiniodd at newid canlyniad y gwaith Cymedroli,

(c) nifer y Gwallau Gweinyddol, y mae'r corff dyfarnu wedi cywiro eu heffaith (boed fel rhan o Adolygiad o Wallau Gweinyddol ai peidio),

(d) nifer yr Adolygiadau o Wallau Gweinyddol y mae'r corff dyfarnu wedi'u cynnal, nifer yr Adolygiadau o Wallau Gweinyddol sydd wedi arwain at newid marc a nifer yr Adolygiadau o Wallau Gweinyddol sydd wedi arwain at newid canlyniad,

(e) natur y Gwallau Gweinyddol a ddarganfuwyd ac unrhyw gamau y mae'r corff dyfarnu yn bwriadu eu cymryd i leihau nifer y Gwallau Gweinyddol,

(f) nifer yr adolygiadau o waith marcio mewn perthynas â Deunydd Asesu wedi'i Farcio y mae'r corff dyfarnu wedi'u cynnal, nifer yr adolygiadau o waith marcio sydd wedi arwain at newid marc a nifer yr adolygiadau o waith marcio sydd wedi arwain at newid canlyniad,



(g) natur unrhyw Wallau Marcio sydd wedi arwain at newid marc yn dilyn adolygiad o waith marcio ac unrhyw gamau y mae'r corff dyfarnu yn bwriadu eu cymryd i leihau Gwallau Marcio,

(h) unrhyw newidiadau y mae'r corff dyfarnu wedi'u gwneud i'w Drefniadau Adolygu ar ôl monitro adolygiadau o waith Cymedroli ac adolygiadau o waith marcio a wnaed gan y corff dyfarnu,

(i) nifer yr apeliadau y mae'r corff dyfarnu wedi'u cynnal a nifer yr apeliadau a fu'n llwyddiannus, a

(j) natur y Gwallau Marcio, Gwallau Cymedroli ac achosion o fethu â chymhwyso gweithdrefnau mewn ffordd gyson neu ddilyn gweithdrefnau mewn ffordd gywir a theg sydd wedi arwain at lwyddiant apêl.

ASC.L2

Rhaid i'r adroddiad a gyhoeddir gan gorff dyfarnu at ddibenion ASC.L1 gynnwys y canlynol mewn perthynas â'r flwyddyn y mae'r adroddiad yn cyfeirio ati -

(a) nifer y Deunyddiau Asesu wedi'u Marcio a ddarparwyd yn dilyn cais yn ystod unrhyw gyfnod amser targed a nifer y Deunyddiau Asesu wedi'u Marcio a ddarparwyd y tu allan i unrhyw gyfnod amser targed o'r fath,

(b) sawl gwaith y mae wedi rhoi gwybod am ganlyniad adolygiad o waith Cymedroli yn ystod y cyfnod amser targed a sawl gwaith y mae wedi methu â gwneud hynny,

(c) sawl gwaith y mae wedi rhoi gwybod am ganlyniad adolygiad o waith Cymedroli a'r rhesymau dros yr adolygiad yn ystod y cyfnod amser targed a sawl gwaith y mae wedi methu â gwneud hynny,

(d) sawl gwaith y mae wedi rhoi gwybod am ganlyniad Adolygiad o Wallau Gweinyddol yn ystod y cyfnod amser targed a sawl gwaith y mae wedi methu â gwneud hynny,

(e) sawl gwaith y mae wedi rhoi gwybod am ganlyniad adolygiad o waith marcio mewn perthynas â Deunydd Asesu wedi'i Marcio yn ystod y cyfnod amser targed a sawl gwaith y mae wedi methu â gwneud hynny,

(f) sawl gwaith y mae wedi rhoi gwybod am ganlyniad adolygiad o waith marcio a'r rhesymau dros yr adolygiad yn ystod unrhyw gyfnod amser targed a sawl gwaith y mae wedi methu â gwneud hynny, a

(g) sawl gwaith y mae wedi rhoi gwybod am ganlyniad apêl yn ystod y cyfnod amser targed ar gyfer rhoi gwybodaeth o'r fath ar ôl derbyn yr holl dystiolaeth mewn perthynas â'r apêl a sawl gwaith y mae wedi methu â gwneud hynny.

ASC.L3

Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod yr adroddiad a gaiff ei baratoi yn unol ag ASC.L1

-

(a) yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad neu'r dull cyflwyno y gall Cymwysterau Cymru eu cyhoeddi a'u diwygio o bryd i'w gilydd, a

(b) yn cael ei gyhoeddi erbyn unrhyw ddyddiad a nodwyd ymlaen llaw gan Cymwysterau Cymru.

### **Amod Safonol Ychwanegol M – Trefniadau Adolygu a thystysgrifau**

ASC.M1 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir gan gorff dyfarnu, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol, gan gynnwys sicrhau bod gweithdrefnau ar waith, i sicrhau ei fod yn diddymu unrhyw dystysgrif os datgelir bod y canlyniad ar y dystysgrif yn anghywir ar ôl cymhwyso Trefniadau Adolygu'r corff dyfarnu yn achos Dysgwr.

### **Amod Safonol Ychwanegol N – Darganfod methiant mewn prosesau asesu**

ASC.N1 Os bydd corff dyfarnu yn darganfod methiant yn ei broses asesu ar ôl iddo gymhwyso ei Drefniadau Adolygu neu broses apeliadau yn achos Dysgwr, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i wneud y canlynol -

(a) nodi unrhyw Ddysgwr arall y mae'r methiant wedi effeithio arno,

(b) cywiro effaith y methiant, neu lle na ellir ei chywiro, ei lliniaru cymaint â phosibl, a

(c) sicrhau na fydd y methiant yn digwydd eto yn y dyfodol.

### **Amod Safonol Ychwanegol O – Cyhoeddi Trefniadau Adolygu a'r broses apeliadau**

ASC.O1 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo, neu y mae'n bwriadu ei gynig, rhaid i'r wybodaeth a gyhoeddir gan y corff dyfarnu am ei Drefniadau Adolygu ac am y broses apeliadau sydd ar waith ganddo alluogi Dysgwyr a Chanolfannau i feddu ar y canlynol -

(a) dealltwriaeth resymol o'r Trefniadau Adolygu a'r broses apeliadau, a

(b) dealltwriaeth resymol o'r ffordd y mae'r Trefniadau Adolygu a'r broses apeliadau yn berthnasol i'w gilydd.

ASC.O2 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff gwybodaeth a gyhoeddir ganddo am ei Drefniadau Adolygu a'i broses apeliadau ar gyfer cymhwyster TGAU/TAG ei chyhoeddi ddigon ymlaen llaw cyn y caiff y cymhwyster y mae'n berthnasol iddo ei gyflwyno i Ddysgwyr er mwyn bodloni gofynion cynllunio rhesymol darpar brynwyr.

## **Amod Safonol Ychwanegol P – Dehongli a Diffiniadau**

- ASC.P1 Bydd y rheolau o ran dehongli a diffiniadau a amlinellir yn Amod Safonol J1 yn gymwys i'r Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol.
- ASC.P2 Ac eithrio o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn ASC.P3, mae'r gofynion a osodir gan yr Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol yn gymwys yn ogystal â'r gofynion a osodir gan yr Amodau Cydnabod Safonol.
- ASC.P3 I'r graddau y ceir unrhyw anghysondeb rhwng un o ofynion Amod Cydnabod Safonol Ychwanegol ac un o ofynion Amod Cydnabod Safonol, fel na allai corff dyfarnu gydymffurfio â'r ddau ofyniad hynny, rhaid i'r corff dyfarnu gydymffurfio â gofyniad yr Amod Cydnabod Safonol Ychwanegol ac nid yw'n ofynnol iddo gydymffurfio â gofyniad yr Amod Cydnabod Safonol.
- ASC.P4 Yn yr Amodau hyn, bydd gan y geiriau canlynol yr ystyr a roddwyd iddynt isod (a dylid dehongli ymadroddion cytras yn unol â hynny) –

### **Gwall Gweinyddol**

Gwall wrth farcio asesiad sydd naill ai -

- (a) yn fethiant i farcio tasg sy'n rhan o'r asesiad, neu
- (b) yn fethiant i gyfrifo'r cyfanswm marciau ar gyfer yr asesiad yn gywir o'r marciau a ddyfarnwyd gan yr Aseswr ar gyfer y tasgau sy'n rhan o'r asesiad.

### **Adolygiad o Wallau Gweinyddol**

Adolygiad i benderfynu p'un a yw'r gwaith marcio a gofnodwyd mewn Deunydd Asesu wedi'i Farcio yn cynnwys Gwall Gweinyddol.

### **Deunydd Asesu wedi'i Farcio**

Mewn perthynas ag asesiad ar gyfer cymhwyster TGAU/TAG a wneir gan Ddysgwr, ac eithrio asesiad lle y caiff tystiolaeth a lunnir gan Ddysgwr ei marcio gan Ganolfan, deunydd sy'n cynnwys y canlynol -

- (a) copi o unrhyw dystiolaeth a luniwyd gan y Dysgwr yn yr asesiad a ddelir gan y corff dyfarnu neu, lle na ddelir tystiolaeth a luniwyd gan y Dysgwr yn yr asesiad neu lle na ellir gwneud copi ohono yn hawdd, cynrychioliad o'r dystiolaeth ar ffurf arall,
- (b) copi o'r cofnod o'r marciau a ddyfarnwyd gan yr Aseswr ar yr adeg y marciwyd y dystiolaeth a luniwyd gan y Dysgwr, a
- (c) copi o unrhyw sylwadau a gofnododd yr Aseswr wrth farcio'r dystiolaeth a luniwyd gan y Dysgwr.

### **Gwall Marcio**

Achos o ddyfarnu marc na ellid bod wedi'i ddyfarnu'n rhesymol

o ystyried y dystiolaeth a luniwyd gan y Dysgwr, y meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu perfformiad Dysgwyr yn eu herbyn ac unrhyw weithdrefnau sydd ar waith gan y corff dyfarnu mewn perthynas â marcio, gan gynnwys yn arbennig pan fo'r marc a ddyfarnwyd yn seiliedig ar -

(a) Gwall Gweinyddol,

(b) methiant i gymhwyso meini prawf a gweithdrefnau o'r fath at y dystiolaeth a luniwyd gan y Dysgwr lle nad oedd y methiant hwnnw yn cynnwys arddel barn academiaidd, neu

(c) achos o arddel barn academiaidd mewn modd afresymol.

### **Gwall Cymedroli**

Achos o bennu canlyniad gwaith Cymedroli na ellid bod wedi'i bennu'n rhesymol o ystyried y dystiolaeth a luniwyd gan Ddysgwyr a ystyriwyd at ddiben y gwaith Cymedroli, gwaith marcio'r Ganolfan mewn perthynas â'r dystiolaeth honno, y meini prawf a ddefnyddir i wahaniaethu perfformiad Dysgwyr yn eu herbyn ac unrhyw weithdrefn sydd ar waith gan y corff dyfarnu mewn perthynas â Chymedroli, gan gynnwys yn arbennig pan fo canlyniad y gwaith Cymedroli yn seiliedig ar -

(a) Gwall Gweinyddol,

(b) methiant i gymhwyso meini prawf a gweithdrefnau o'r fath at y dystiolaeth a luniwyd gan Ddysgwyr lle nad oedd y methiant hwnnw yn cynnwys arddel barn academiaidd, neu

(c) achos o arddel barn academiaidd mewn modd afresymol.

### **Canolfan Berthnasol**

Mewn perthynas â Dysgwr, Canolfan sydd -

(a) wedi prynu'r cymhwyster TGAU/TAG (ar ran y Dysgwr), a

(b) wedi cyfrannu mewn ffordd berthnasol at y gwaith o baratoi'r Dysgwr ar gyfer yr asesiad (boed drwy waith addysgu neu gyfarwyddo a ddarparwyd gan Athrawon a gyflogir ganddi neu fel arall).

### **Trefniadau Adolygu**

Mewn perthynas â chymhwyster TGAU/TAG, y trefniadau y mae'n ofynnol i gorff dyfarnu eu sefydlu, eu cynnal a chydymffurfio â hwy yn unol â'r canlynol

-

(a) ASC.E (Adolygu Gwaith Cymedroli),

(b) ASC.F (Sicrhau bod Deunyddiau Asesu wedi'u Marcio ar gael i Ddysgwyr),

(c) ASC.G (Adolygiad o Wallau Gweinyddol), a

(d) ASC.H (Adolygu gwaith marcio ar gyfer Deunydd Asesu wedi'i Farcio).

Adran 2 - Amod Safonol Ychwanegol Q - Pennu ffiniau graddau TGAU, UG a Safon Uwch

ASC.Q1 Mewn perthynas â phob cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo, rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio ag unrhyw ofynion, ac ystyried unrhyw ganllawiau, y gall Cymwysterau Cymru eu cyhoeddi a'u diwygio o bryd i'w gilydd mewn perthynas â'r canlynol –

- a) hyrwyddo cysondeb rhwng y broses o fesur lefelau cyrhaeddiad Dysgwyr yn y cymhwyster hwnnw a chymwysterau tebyg a gynigir gan gyrff dyfarnu eraill, a
- b) pennu lefelau cyrhaeddiad penodedig

ASC.Q2 Wrth bennu'r lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer cymhwyster TGAU/TAG a gynigir ganddo, rhaid i gorff dyfarnu ystyried amrywiaeth briodol o dystiolaeth ansoddol a meintiol.

Dim ond os bydd yn cynnwys tystiolaeth o unrhyw un, neu fwy, o'r canlynol y bydd yr amrywiaeth o dystiolaeth a ystyrir gan gorff dyfarnu at ddibenion yr amod hwn yn briodol-

- a) Lefel Galw'r asesiadau ar gyfer y cymhwyster hwnnw,
- b) y lefel cyrhaeddiad a ddangoswyd yn yr asesiadau hynny gan sampl gynrychioliadol briodol o'r Dysgwyr sy'n astudio'r cymhwyster hwnnw.
- c) y lefel cyrhaeddiad a ddangoswyd gan y Dysgwyr sy'n astudio'r cymhwyster hwnnw mewn -
  - i) asesiad blaenorol (nad oedd ar gyfer y cymhwyster hwnnw), p'un a oedd yr asesiad hwnnw ar gyfer cymhwyster a reoleiddir ai peidio, neu
  - ii) cymhwyster blaenorol, p'un a oedd y cymhwyster hwnnw yn gymhwyster a reoleiddir ai peidio, neu
- d) y lefel cyrhaeddiad a ddangoswyd gan Ddysgwyr y dyfarnwyd y cymhwyster iddynt yn flaenorol.

ASC.Q3 Rhaid i gorff dyfarnu gadw cofnod o'r canlynol-

- a) y dystiolaeth a ystyriwyd ganddo wrth bennu'r lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer cymhwyster a gynigir ganddo, a
- b) ei resymeg dros ddewis y dystiolaeth honno a sut y mae wedi ystyried y dystiolaeth honno.

## ATODIAD 1

### Adolygiadau o waith marcio, gwaith cymedroli ac apeliadau: gofynion ar gyfer dyddiadau allweddol

Cymwysterau TGAU

Rydym yn nodi isod y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â hwy wrth ddynodi terfynau amser ar gyfer gwneud cais am adolygiadau o waith marcio, adolygiadau o waith Cymedroli ac apeliadau. Cyhoeddir y gofynion hyn yn unol ag Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ASC.E3(b), ASC.F4 ac ASC.H3 ac maent yn berthnasol i bob cymhwyster TGAU a gaiff ei gymeradwyo neu ei ddynodi gan Cymwysterau Cymru.

Nid yw'n ofynnol mwyach i gyrff dyfarnu bennu dyddiadau cau ar gyfer derbyn ceisiadau gan Ddysgwyr/Canolfannau ar gyfer adolygiadau o waith marcio, adolygiadau o waith Cymedroli ac apeliadau. Wrth ddewis pennu unrhyw ddyddiadau cau, rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â'r gofynion a nodir isod a'r holl ofynion eraill yn ei Amodau Cydnabod.

Yn arbennig, rhaid darllen y gofynion a nodir isod a chydymffurfio â hwy ar y cyd â'r Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG (sy'n nodi gofynion pellach mewn perthynas â threfniadau corff dyfarnu). Nid yw rhai Amodau Safonol Ychwanegol perthnasol wedi dod i rym eto ac mae rhai darpariaethau trosiannol ar waith ar hyn o bryd. Byddwn yn adolygu'r gofynion a nodir isod yn rheolaidd wrth i unrhyw newidiadau gael eu gwneud.

### Y gofynion o ran dyddiadau allweddol ar gyfer asesiadau TGAU ac eithrio asesiadau a gaiff eu marcio gan Ganolfan

Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau y bodlonir y gofynion yn y tabl isod ym mhob achos lle na chaiff yr asesiad ei farcio gan Ganolfan. Mae'r tabl yn nodi'r cyfnod amser gofynnol y mae'n rhaid i'r corff dyfarnu dderbyn cais am adolygiad/apêl oddi fewn iddo. Ar yr amod y caniateir cais am adolygiad/apêl o fewn y cyfnod amser hwnnw, caniateir hefyd i gorff dyfarnu ddarparu 'gwasanaeth cyflymach' (er enghraifft, lle y caiff ceisiadau am adolygiadau a gyflwynir erbyn dyddiad cynharach eu prosesu'n gyflymach).

	Cam	Gofynion o ran cyfnod amser
<b>A</b>	Y dyddiad y cyhoeddir y canlyniadau	
<b>B</b>	Dyddiad cau cyflwyno cais i gynnal adolygiad o waith marcio mewn perthynas â Deunydd Asesu wedi'i Farcio <sup>2</sup> .	Rhaid caniatáu o leiaf bedair wythnos o Gam A i'r dysgwr/canolfan sy'n cyflwyno'r cais wneud cais o'r fath.

<sup>2</sup> Rhaid i unrhyw ddyddiad ar gyfer cam B hefyd adlewyrchu'r gofynion a nodir yn ASC.H3

<b>C</b>	Y dyddiad y bydd corff dyfarnu yn rhoi gwybod am ganlyniad yr adolygiad o waith marcio <sup>3</sup> .	
<b>D</b>	Dyddiad cau cyflwyno cais am resymau dros ganlyniad yr adolygiad <sup>4</sup> .	
<b>E</b>	Y dyddiad y bydd corff dyfarnu yn rhoi rhesymau dros ganlyniad yr adolygiad.	
<b>F</b>	Dyddiad cau cyflwyno cais am apêl o ganlyniad yr asesiad.	Rhaid caniatáu o leiaf bedair wythnos yn dilyn Cam C i'r dysgwr/canolfan sy'n cyflwyno'r cais wneud cais o'r fath,  a  lle y cyflwynwyd cais am resymau dros ganlyniad yr adolygiad  (erbyn Cam D, lle y dynodir hynny gan y corff dyfarnu), rhaid caniatáu o leiaf bythefnos yn dilyn Cam E i'r dysgwr/canolfan sy'n cyflwyno'r cais gyflwyno apêl
<b>G</b>	Mae'r corff dyfarnu yn rhoi gwybod am ganlyniad yr apêl.	

### **Y gofynion o ran dyddiadau allweddol ar gyfer asesiadau TGAU a gaiff eu marcio gan Ganolfan**

Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau y bodlonir y gofynion yn y tabl isod ym mhob achos lle y caiff yr asesiad ei farcio gan Ganolfan. Mae'r tabl yn nodi'r cyfnod amser gofynnol y mae'n rhaid i'r corff dyfarnu dderbyn cais am adolygiad/apêl oddi fewn iddo. Fel uchod, ar yr amod y caniateir cais am adolygiad/apêl o fewn y cyfnod amser hwnnw, caniateir hefyd i gorff dyfarnu ddarparu 'gwasanaeth cyflymach'.

	<b>Cam</b>	<b>Gofynion o ran cyfnod amser</b>
<b>A</b>	Y dyddiad y bydd corff dyfarnu yn cyhoeddi canlyniad ei waith cymedroli.	

<sup>3</sup> O dan ASC.K2 (d), rhaid i gyrff dyfarnu bennu targedau ar gyfer rhoi gwybod am ganlyniad adolygiad o waith marcio.

<sup>4</sup> O dan ASC.K2 (e), rhaid i gyrff dyfarnu bennu targedau ar gyfer rhoi gwybod am y rhesymau dros ganlyniad adolygiad o waith marcio, er y gallant bennu dyddiadau ar gyfer cyflwyno cais am y rheswm dros y canlyniad.

<b>B</b>	Dyddiad cau cyflwyno cais i gynnal adolygiad o waith cymedrol <sup>5</sup> .	Rhaid caniatáu o leiaf bedair wythnos yn dilyn Cam A i'r ganolfan sy'n cyflwyno'r cais wneud cais o'r fath.
<b>C</b>	Y dyddiad y bydd corff dyfarnu yn rhoi gwybod am ganlyniad yr adolygiad o waith Cymedrol <sup>6</sup> .	
<b>D</b>	Y dyddiad y bydd corff dyfarnu yn rhoi rhesymau dros ganlyniad yr adolygiad <sup>7</sup> .	
<b>E</b>	Dyddiad cau cyflwyno cais am apêl o ganlyniad adolygiad o waith Cymedrol <sup>8</sup> .	Rhaid caniatáu o leiaf bedair wythnos yn dilyn Cam C i'r ganolfan sy'n cyflwyno'r cais wneud cais o'r fath,  a  Rhaid caniatáu o leiaf bythefnos yn dilyn Cam D i'r ganolfan sy'n cyflwyno'r cais wneud cais o'r fath.
<b>F</b>	Mae'r corff dyfarnu yn rhoi gwybod am ganlyniad yr apêl <sup>9</sup> .	

<sup>5</sup> Rhaid i unrhyw ddyddiad a bennir gydymffurfio ag Amod ASC.E3, gan gynnwys cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y tabl.

<sup>6</sup> O dan Amod ASC.K, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl gamau rhesymol ar waith i gyrraedd targed ar gyfer yr amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau adolygiad, a chymryd y camau hynny

<sup>7</sup> O dan Amod ASC.K, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl gamau rhesymol ar waith i gyrraedd targed ar gyfer yr amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau adolygiad a rhoi rhesymau, a chymryd y camau hynny

<sup>8</sup> Rhaid i unrhyw ddyddiad a bennir gydymffurfio ag Amod ASC.K, gan gynnwys cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y tabl

<sup>9</sup> O dan Amod ASC.K, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl gamau rhesymol ar waith i gyrraedd targed ar gyfer yr amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau apêl, a chymryd y camau hynny.



## Cymwysterau TAG

Rydym yn nodi isod y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â hwy wrth ddynodi terfynau amser ar gyfer gwneud cais am adolygiadau o waith marcio, adolygiadau o waith Cymedroli ac apeliadau. Cyhoeddir y gofynion hyn o dan Amodau ASC.E3(b), ASC.H3(b) ac ASC.I4(b) ac maent yn berthnasol i bob cymhwyster TAG.

Nid yw bellach yn ofynnol i gyrff dyfarnu bennu dyddiadau cau ar gyfer derbyn ceisiadau gan Ddysgwyr/Canolfannau ar gyfer adolygiadau o waith marcio, adolygiadau o waith Cymedroli ac apeliadau. Wrth ddewis pennu unrhyw ddyddiadau cau, rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â'r gofynion a nodir isod a'r holl ofynion eraill yn ei Amodau Cydnabod.

Yn arbennig, rhaid darllen y gofynion a nodir isod a chydymffurfio â hwy ar y cyd â'r Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG (sy'n nodi gofynion pellach mewn perthynas â threfniadau corff dyfarnu). Nid yw rhai Amodau Safonol Ychwanegol perthnasol wedi dod i rym eto ac mae rhai darpariaethau trosiannol ar waith ar hyn o bryd. Byddwn yn adolygu'r gofynion a nodir isod yn rheolaidd wrth i unrhyw newidiadau gael eu gwneud.

### **Y gofynion o ran dyddiadau allweddol ar gyfer asesiadau TAG ac eithrio asesiadau a gaiff eu marcio gan Ganolfan**

Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau y bodlonir y gofynion yn y tabl isod ym mhob achos lle na chaiff yr asesiad ei farcio gan Ganolfan. Mae'r tabl yn nodi'r cyfnod amser gofynnol y mae'n rhaid i'r corff dyfarnu dderbyn cais am adolygiad/apêl oddi fewn iddo. Ar yr amod y caniateir cais am adolygiad/apêl o fewn y cyfnod amser hwnnw, caniateir hefyd i gorff dyfarnu ddarparu 'gwasanaeth cyflymach' (er enghraifft, lle y caiff ceisiadau am adolygiadau a gyflwynir erbyn dyddiad cynharach eu prosesu'n gyflymach).

	<b>Cam</b>	<b>Gofynion o ran cyfnod amser</b>
<b>A</b>	Y dyddiad y cyhoeddir y canlyniadau	
<b>B</b>	Dyddiad cau cyflwyno cais am Ddeunydd Asesu wedi'i Farcio (lle y bo'n berthnasol <sup>10</sup> )	
<b>C</b>	Dyddiad derbyn Deunydd Asesu wedi'i Farcio <sup>11</sup> .	
<b>D</b>	Dyddiad cau cyflwyno cais i gynnal adolygiad o waith marcio mewn	Rhaid caniatáu o leiaf bedair wythnos yn dilyn Cam A i'r Dysgwr/Canolfan sy'n cyflwyno'r cais wneud cais o'r fath,  a

<sup>10</sup> O dan Amod ASC.F, gall cyrff dyfarnu benderfynu p'un a ddylai Deunyddiau Asesu wedi'u Marcio fod ar gael yn awtomatig neu ar gais yn unig.

<sup>11</sup> O dan Amod ASC.F3, rhaid i drefniadau cyrff dyfarnu ar gyfer sicrhau bod Deunydd Asesu wedi'i Farcio ar gael roi cyfle rhesymol i Ddysgwyr/Canolfannau ystyried p'un a ddylid cyflwyno cais am adolygiad o waith marcio.

	perthynas â Deunydd Asesu wedi'i Farcio <sup>12</sup> .	Ile bo angen darparu Deunyddiau Asesu wedi'u Marcio, rhaid caniatáu o leiaf bythefnos yn dilyn Cam C i'r Dysgwr/Canolfan sy'n cyflwyno'r cais wneud cais o'r fath.
<b>E</b>	Y dyddiad y bydd corff dyfarnu yn rhoi gwybod am ganlyniad yr adolygiad o waith marcio <sup>13</sup> .	
<b>F</b>	Dyddiad cau cyflwyno cais am y rhesymau dros ganlyniad yr adolygiad <sup>14</sup> .	
<b>G</b>	Y dyddiad y bydd corff dyfarnu yn rhoi rhesymau dros ganlyniad yr adolygiad.	
<b>H</b>	Dyddiad cau cyflwyno cais am apêl o ganlyniad yr asesiad. <sup>15</sup>	Rhaid caniatáu o leiaf bedair wythnos yn dilyn Cam E i'r Dysgwr/Canolfan sy'n cyflwyno'r cais wneud cais o'r fath,  a  Ile y cyflwynwyd cais am resymau dros ganlyniad yr adolygiad (erbyn Cam F, lle y dynodir hynny gan y corff dyfarnu), rhaid caniatáu o leiaf bythefnos yn dilyn Cam G i'r Dysgwr/Canolfan sy'n cyflwyno'r cais gyflwyno'r apêl.
<b>I</b>	Mae'r corff dyfarnu yn rhoi gwybod am ganlyniad yr apêl <sup>16</sup> .	

## Y gofynion o ran dyddiadau allweddol ar gyfer asesiadau TAG a gaiff eu marcio gan Ganolfan

Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau y bodlonir y gofynion yn y tabl isod ym mhob achos lle y caiff yr asesiad ei farcio gan Ganolfan. Mae'r tabl yn nodi'r isafswm cyfnodau amser lle y mae'n rhaid i'r corff dyfarnu dderbyn cais am adolygiad/apêl. Fel uchod, ar yr amod y caniateir cais am adolygiad/apêl o fewn y cyfnod amser hwnnw, caniateir hefyd i gorff dyfarnu ddarparu 'gwasanaeth cyflymach'.

<sup>12</sup> Rhaid i unrhyw ddyddiad a bennir gydymffurfio ag Amod ASC.H3, gan gynnwys cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y tabl

<sup>13</sup> O dan Amod ASC.K, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl gamau rhesymol ar waith i gyrraedd targed ar gyfer yr amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau adolygiad, a chymryd y camau hynny

<sup>14</sup> O dan Amod ASC.H5(j), mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu ddarparu rhesymau dros ganlyniad yr adolygiad ar gais, er y gallant ddynodi terfyn amser rhesymol ar gyfer cyflwyno ceisiadau

<sup>15</sup> Rhaid i unrhyw ddyddiad a bennir gydymffurfio ag Amod ASC.I4, gan gynnwys cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y tabl

<sup>16</sup> O dan Amod ASC.K2(g), mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl gamau rhesymol ar waith i gyrraedd targed ar gyfer yr amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau apêl, a chymryd y camau hynny.

	<b>Cam</b>	<b>Gofynion o ran cyfnod amser</b>
<b>A</b>	Y dyddiad y bydd corff dyfarnu yn cyhoeddi canlyniad ei waith cymedroli	
<b>B</b>	Dyddiad cau cyflwyno cais i gynnal adolygiad o waith cymedroli <sup>17</sup> .	Rhaid caniatáu o leiaf bedair wythnos ar ôl Cam A i'r ganolfan sy'n cyflwyno'r cais wneud cais o'r fath.
<b>C</b>	Y dyddiad y bydd corff dyfarnu yn rhoi gwybod am ganlyniad yr adolygiad o waith Cymedroli <sup>18</sup> .	
<b>D</b>	Y dyddiad y bydd corff dyfarnu yn rhoi rhesymau dros ganlyniad yr adolygiad o waith Cymedroli <sup>19</sup>	
<b>E</b>	Dyddiad cau cyflwyno cais am apêl o ganlyniad gwaith Cymedroli <sup>20</sup> .	Rhaid caniatáu o leiaf bedair wythnos yn dilyn Cam C i'r ganolfan sy'n cyflwyno'r cais wneud cais o'r fath,  a  Rhaid caniatáu o leiaf bythefnos yn dilyn Cam D i'r ganolfan sy'n cyflwyno'r cais wneud cais o'r fath.
<b>F</b>	Mae'r corff dyfarnu yn rhoi gwybod am ganlyniad yr apêl <sup>21</sup> .	

<sup>17</sup> Rhaid i unrhyw ddyddiad a bennir gydymffurfio ag Amod ASC.E2(c), gan gynnwys cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y tabl.

<sup>18</sup> O dan Amod ASC.K, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl gamau rhesymol ar waith i gyrraedd targed ar gyfer yr amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau adolygiad, a chymryd y camau hynny.

<sup>19</sup> O dan Amod ASC.K, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl gamau rhesymol ar waith i gyrraedd targed ar gyfer yr amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau adolygiad a rhoi rhesymau, a chymryd y camau hynny.

<sup>20</sup> Rhaid i unrhyw ddyddiad a bennir gydymffurfio ag Amod ASC.I4, gan gynnwys cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y tabl

<sup>21</sup> O dan Amod ASC.K, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl gamau rhesymol ar waith i gyrraedd targed ar gyfer yr amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau apêl, a chymryd y camau hynny